Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Nwyddau: Reis

Reis, Agrocel, India

YR INDIA: REIS BASMATI

1. Mae reis basmati, sy'n enwog am ei arogl nodedig, wedi cael ei dyfu wrth draed cadwyn mynyddoedd yr Himalaya yn yr India ers miloedd o flynyddoedd. Mae afonydd Yamuna a Sutluj yn dyfrio caeau'r reis basmati. Daw'r reis basmati o'r ansawdd gorau o hen ardal Karnal, a elwir yn 'bowlen reis yr India'.

2. Mae ffermwyr yn Haryana yn hau eu cnwd reis mewn meithrinfeydd padi ym mis Mehefin. Bydd y planhigion bach yn cael eu trawsblannu i gaeau reis yn ystod pythefnos gyntaf mis Gorffennaf.

3. Fel arfer cynaeafir y reis o ganol mis Hydref hyd at yr wythnos gyntaf neu'r ail ym mis Tachwedd. Gan eu bod nhw'n cylchdroi cnydau mae'r cynhaeaf yn adeg brysur i ffermwyr, bydd yn rhaid i iddyn nhw hau gwenith ar ôl aredig y caeau reis.



Photos: Traidcraft/Shailan Parker

Ym mis Hydref 2006, defnyddiodd Agrocel bremiwm Masnach Deg i brynu tri pheiriant palu sy'n arbed llawer o amser i'r ffermwyr wrth baratoi'r tir. Pan fydd ffermwyr yn defnyddio tractor maen nhw'n gorfod mynd dros y cae lawer o weithiau i'w baratoi at y cnwd nesaf – dim ond unwaith mae angen gwneud hynny gyda'r peiriant palu.

Mae'r India yn cynhyrchu 70% o reis basmati'r byd.

Word list:

Cylchdroi Cnydau	Cael gwahanol gnydau yn eu tro oddi ar yr un tir. Mae hynny'n gwella'r pridd ac yn golygu fod y ffermwyr yn gallu tyfu mwy nag un math o gnwd.
Peiriant palu	Peiriant i balu'r pridd.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Nwyddau: Reis

Reis, Green Net, Gwlad Thai

GWLAD THAI: REIS JASMINE

1. Mae Gwlad Thai yn un o gynhyrchwyr reis mwyaf y byd ond dim ond 25% o'r tiroedd reis sy'n cael eu dyfrio; glaw, gan gynnwys tir ffermwyr Green Net, sy'n gwlychu'r gweddill. Mae ffermwyr Cwmni Cydweithredol Green Net yng Ngwlad Thai yn cynhyrchu reis grawn hir, persawrus, organig, jasmin, coch, gwyn a brown. Ffermwyr bychan sy'n tyfu'r reis ac yn dibynnu ar y glaw i ddyfrio'r cnwd.

2. Nid yw hadau reis jasmine yn cynhyrchu cymaint o reis â mathau eraill ond mae'r planhigion yn addas iawn ar gyfer amodau sych a heb fod angen llawer o sylw gan y ffermwyr. Yn aml, bydd pobl yn talu llawer mwy am reis jasmine nag am fathau eraill o reis.

3. Bydd y tir yn cael ei baratoi gan y ffermwyr yn ystod Ebrill ac yna ym misoedd Mai a Mehefin mae 'meithrinfeydd padi' yn cael eu dechrau pan fydd reis yn dechrau tyfu. Mae'r planhigion yn cael eu cludo i'r caeau tua diwedd mis Gorffennaf.

Photos: Traidcraft/Michael Commons, Earth Net Foundation

4. Bydd y reis yn cael ei gynaeafu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud â llaw gan y teulu ond os yw'n bosibl bydd y ffermwyr yn defnyddio tractorau dwy olwyn sy'n cael eu hadnabod fel 'byfflo haearn'.

5. Bydd ffermwyr yn cludo'u reis i un o dair melin reis sydd piau cymdeithasau ffermwyr Green Net. Mae'r broses falu'n cael gwared ar blisgyn y reis a bydd yn barod wedyn i fynd i'r uned bacio. Yn aml bydd ffermwyr yn gweithio yn y felin am gyfnod yn gyfnewid am ychydig o reis wedi'i falu i fynd adref.

Meithrinfeydd Padi	Darnau bychain o dir wedi'i dyfrio ble mae hadau'r reis yn cael eu hau.